YMCHWIL

# Arolwg bywyd dyddiol, ymchwil aelwydydd COVID-19 Cymru: ton 1 adroddiad interim (crynodeb)

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r newidiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn ymddygiad yr atebwyr ers dechrau pandemig COVID-19, ac unrhyw wahaniaethau demograffig neu ddaearyddol sy'n dylanwadu ar newid ymddygiad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 25 Tachwedd 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 25 Tachwedd 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad a chefndir

Cyfyngiadau

Canfyddiadau

Manylion cyswllt

# Cyflwyniad a chefndir

Comisiynwyd Ipsos MORI, gan weithio gyda'r Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol (CAST) a Sefydliad Ymchwil Adeiladau (BRE), i gynnal Ymchwil Cartrefi COVID-19 (o'r enw “Arolwg Bywyd Dyddiol”) ym mis Medi 2020.

Mae'r ymchwil yn darparu trosolwg cadarn a chynhwysfawr o effeithiau pandemig y coronafeirws ar ymddygiadau, agweddau a phrofiadau hunan-gofnodedig aelwydydd mewn perthynas â sero net, mesurau adferiad gwyrdd a'r defnydd o ynni yn y cartref. Mae'r ymchwil yn edrych ar effeithiau gwahaniaethol ar is-grwpiau o'r boblogaeth, yn enwedig mewn perthynas â lefel incwm, a gwydnwch disgwyliedig newidiadau. Archwiliwyd hefyd anghenion cymorth cyfranogwyr mewn perthynas â chynnal ymddygiadau sero net, ac mewn perthynas ag ymdopi ag effeithiau'r pandemig ar eu profiadau fel defnyddwyr ynni.

Mae'r ymchwil yn cynnwys dwy don o arolwg meintiol o aelwydydd a cham o ymchwil ansoddol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ton gyntaf yr arolwg meintiol yng Nghymru, y cynhaliwyd gwaith maes ar ei gyfer rhwng 20 Tachwedd a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

24 Rhagfyr 2020. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer gweddill y DU rhwng 12 Tachwedd a 24 Rhagfyr 2020: dechreuodd y gwaith maes yng Nghymru ychydig yn hwyrach i alluogi cyfieithu dogfennau'r gwaith maes i'r Gymraeg. Yng Nghymru, roedd diwedd y cyfnod gwaith maes yn gorgyffwrdd â chyfnod clo'r gaeaf a ddechreuodd ar Ragfyr 19 2020.

Yng Nghymru, dewiswyd cyfanswm o 4,843 o gyfeiriadau. Cyfanswm yr ymatebion dilys a gynhwysir yn yr adroddiad hwn o Gymru yw 1,687, gyda 1,242 o aelwydydd yn dychwelyd o leiaf un holiadur. Mae mwy o fanylion am ddadansoddiad y sampl i'w gweld yn y prif adroddiad.

# Cyfyngiadau

Ymhlith y cyfyngiadau posibl i'r astudiaeth hon mae: cywirdeb atgofion cyfranogwyr, yn enwedig o ran dwyn i gof ymddygiadau cyn 23ain Mawrth 2020; gogwydd dymunoldeb cymdeithasol; cynrychiolaeth y sampl; gwahaniaethau rhwng samplau ar-lein a samplau post sy'n arwain at gynrychiolaeth is o'r sampl ar gyfer cwestiynau ar-lein yn unig; a gogwydd di-ymateb. Cymerwyd camau i liniaru effeithiau'r cyfyngiadau hyn lle bynnag y bo modd.

# Canfyddiadau

## Pa newidiadau mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a fu ers dechrau'r pandemig?

Gwastraff ac ailgylchu oedd yr ymddygiadau sero net mwyaf cyffredin a chyson ledled Cymru ar adeg cynnal yr arolwg. Dywedodd wyth o bob deg neu fwy o'r cyfranogwyr eu bod yn ailgylchu (93%), yn gwahanu gwastraff bwyd (82%) ac yn osgoi gwastraffu bwyd (78%) 'bob amser' neu 'y rhan fwyaf o'r amser'. Adroddwyd yn llai aml am ymddygiadau sydd â rhywfaint o'r potensial uchaf ar gyfer arbed carbon o newid ffordd o fyw, megis teithio llesol a bwyta diet sy'n seiliedig ar blanhigion (roedd 23% a 18% yn gwneud y rhain 'bob amser' neu'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

'rhan fwyaf o'r amser' yn y drefn honno). Roedd mynychder pob ymddygiad yng Nghymru yn debyg iawn i gyfartaledd y DU i gyd.

Gwelwyd cynnydd yn amlder ar draws y rhan fwyaf o'r ymddygiadau sero net y gofynnwyd amdanynt ers y cyfnod clo cyntaf ledled y DU ar 23ain Mawrth 2020, gyda dwy ran o dair (63%) o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi cymryd neu gynyddu o leiaf un ymddygiad sero net - yn debyg i'r 66% sy'n dweud hyn ar gyfartaledd ledled y DU.

Lle bu cynnydd yn amlder ymddygiad sero net (e.e. symudiad o 'weithiau' i 'y rhan fwyaf o'r amser'), cyfeiriwyd at hyn fel “newid ymddygiad sero net cadarnhaol” a lle bu gostyngiad mewn amlder (e.e. symudiad o 'bob amser' i 'byth'), cyfeiriwyd at hyn fel “newid ymddygiad sero net negyddol”. Gwelwyd y lefelau uchaf o newidiadau ymddygiad sero net ar gyfer gweithio gartref yn hytrach na chymudo i'r gwaith**[1]**, prynu dim ond yr hyn sydd ei angen arnoch chi, ac osgoi gwastraff bwyd. Adroddwyd am newidiadau sero net cadarnhaol yn amlach na newidiadau sero net negyddol. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, gwelwyd newid sero net negyddol sylweddol, yn cyfateb i, neu'n rhagori ar lefelau newid cadarnhaol yn y categori hwnnw (er enghraifft ar gyfer cynllunio gwyliau dim hedfan a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus).

Newid ymddygiad negyddol allweddol sero net a welwyd oedd y symudiad i ffwrdd o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thuag at ddefnyddio ceir preifat (roedd 24% o gyfranogwyr yng Nghymru yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle car preifat yn llai aml), ac ni chafodd hyn ei wrthbwyso gan symudiad tebyg o ddefnyddio car i deithio llesol (mae 11% yn gwneud neges ar droed / beic yn amlach). Mae'r ddwy gyfran yma yn debyg i gyfartaledd y DU gyfan.

Buddion ariannol a buddion lles corfforol a meddyliol ymddygiadau sero net oedd ysgogwyr pwysicaf dechrau neu gynyddu (gan dderbyn sgoriau pwysigrwydd cymedrig o 3.78 a 3.32 allan o 5 yn y drefn honno**[2]**), yn fwy na phryder am yr amgylchedd (sgôr pwysigrwydd cymedrig: 2.80 ). Hyd yn oed pan oedd y pryder am yr amgylchedd yn uchel, nid oedd nifer y newidiadau ymddygiad sero net a adroddwyd bob amser yn adlewyrchu hyn. Nid y rhai a oedd yn poeni fwyaf am newid yn yr hinsawdd oedd y rhai mwyaf tebygol o fod wedi gwneud newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol. Mae patrymau ymateb yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU gyfan.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dywedodd mwyafrif cryf (84%) o’r cyfranogwyr eu bod yn credu mewn newid hinsawdd anthropogenig, (h.y. bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgareddau dynol), ac mae 76% yn credu y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio’n negyddol ar y DU yn ystod eu hoes. Dywedodd tua chwarter (21%) bod eu pryder cyffredinol ynghylch newid yn yr hinsawdd wedi cynyddu ers y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ledled y DU: i raddau helaeth ymhlith y rhai a oedd eisoes yn pryderu. Roedd y mwyafrif, fodd bynnag, yn nodi nad oedd lefel eu pryder heb newid (69%). Unwaith eto, mae'r safbwyntiau yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU gyfan. Dywedodd tri chwarter (76%) o’r cyfranogwyr yng Nghymru eu bod yn dymuno gweld adferiad economaidd gwyrdd, ond dywedodd llai na hanner (47%) y buasent yn gwrthwynebu polisïau a fyddai’n hyrwyddo twf economaidd ar draul yr amgylchedd.

**[1]** Nid oedd yr holl gyfranogwyr mewn gwaith, ac felly nid oedd y newid ymddygiad sero net cadarnhaol hwn yn berthnasol i bawb.   Dylid nodi hefyd bod cryn ddadlau gwyddonol ynghylch a yw gweithio gartref yn ganlyniad sero net cadarnhaol.

**[2]** Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio 5 cymhelliant dros unrhyw newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol: mae sgôr gymedrig uchel (allan o 5) yn nodi bod y cymhelliant yn ddylanwad pwysicach ar y newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol yr adroddwyd arnynt.

## A yw newidiadau ymddygiad yn sero net positif neu sero net negyddol?

Yn gyffredinol, nododd cyfran uwch o'r cyhoedd o leiaf un newid ymddygiad sero net cadarnhaol (63%) na'r rhai a nododd o leiaf un newid ymddygiad sero net negyddol (57%).

## A yw'r cyfranogwyr eisiau parhau â newidiadau?

Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod rhai newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol ymhlith aelwydydd yng Nghymru, fel y rheiny yng ngweddill y DU, yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

debygol o barhau yn yr hir dymor. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r ymddygiadau sero net mwyaf effeithiol, megis llai o deithio awyr a bwyta diet sy'n seiliedig ar blanhigion, roedd yr awydd i gynnal tuag at ben isaf y raddfa o gymharu ag ymddygiadau sero net eraill.

- O'r 13% a oedd yn cynllunio mwy o wyliau nad oes angen hedfan i'w cyrraedd ar adeg yr arolwg, mae 43% eisiau parhau i wneud hynny
- O'r 6% a oedd wedi lleihau eu cymeriant cig / llaeth, dywedodd 51% eu bod am barhau i wneud hynny
- Mewn cymhariaeth, o'r 9% a oedd yn ceisio arbed ynni gartref ar adeg yr arolwg, dywedodd 97% eu bod am barhau i wneud hynny.

## Sut mae newidiadau yn amrywio ar draws cenhedloedd a grwpiau demograffig, gyda ffocws penodol ar aelwydydd tlawd o ran tanwydd?

Roedd y newidiadau yn rhyfeddol o gyson ar draws cenhedloedd y DU a gwahanol ranbarthau yng Nghymru. Roedd y rhai a dreuliodd fwy o amser gartref ers y cyfnod clo cyntaf ledled y DU yn fwy tebygol o fod wedi gwneud un neu fwy newid ymddygiad sero net cadarnhaol. Roedd cyfranogwyr iau ac aelwydydd â phlant yn tueddu i wneud mwy o newidiadau.

Mae cyfranogwyr sy'n fwy tebygol o nodi eu bod wedi gwneud chwech neu fwy o newidiadau sero net cadarnhaol yn cynnwys pobl iau (dan 44 oed); y rhai sy'n byw mewn cartrefi mwy, weithiau aml-genhedlaeth; y rhai sydd dan bwysau ariannol, ond heb ymddeol; y rhai sy'n rhentu'n breifat; y rhai sy'n byw mewn fflatiau; neu'r rhai sydd â phroblemau cysylltiedig â gwres yn eu cartref. Roedd y rhai a wnaeth 6+ o newidiadau sero net cadarnhaol wedi eu hysgogi fwyaf i newid gan bryderon ariannol.

Roedd y traean o'r cyfranogwyr nad oeddent wedi gwneud unrhyw newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol yn tueddu i fod yn hŷn neu wedi ymddeol; i beidio â chael plant ar yr aelwyd; i fod yn rhentwyr cymdeithasol; neu i adrodd nad oedd ganddynt broblemau cysylltiedig â gwres yn eu cartref. Ymddengys bod y rhai a oedd yn well eu byd yn ariannol hefyd yn llai tebygol o fod wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwneud newidiadau sero net cadarnhaol, fel ag yr oedd cyfranogwyr yng Nghanolbarth Cymru.

Roedd cyfranogwyr mewn cartrefi sy'n debygol o fod yn dlawd o ran tanwydd yn sylweddol fwy tebygol o nodi eu bod wedi gwneud newidiadau sero net cadarnhaol yn ymwneud â defnyddio gwres yn ofalus, golchi dillad ar 30ºC neu'n is, a cheisio arbed ynni gartref. Roeddent hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi gwneud newidiadau am resymau amgylcheddol.

## Pa gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyhoedd i gynnal newidiadau yn yr hir dymor?

Gallai ymyriadau polisi a chymhellion i annog pobl i gynnal ymddygiadau sero net yn y tymor hwy fod yn ddefnyddiol, o ystyried yr amrywiad ar draws ymddygiadau. Roedd ffactorau ariannol a llesiant yn ysgogwyr pwysicach o newid ymddygiad sero net cadarnhaol na phryder am yr amgylchedd, hyd yn oed i'r rhai a oedd wedi gwneud 6+ newid sero net cadarnhaol.

Pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu'r cyhoedd i gynnal ymddygiadau sero net cadarnhaol roedd cyfranogwyr yn ffafrio'n gryf 'moron' dros 'ffyn'. Darparu cymorth ariannol, cymorthdaliadau neu gymhellion oedd y mecanwaith cymorth y gofynnwyd amdanynt amlaf (gan 31% yng Nghymru, v cyfartaledd y DU o 34%). Awgrymwyd yn gyffredin hefyd welliannau i seilwaith a gwasanaethau.

## Beth fu effaith anawsterau ariannol sy'n gysylltiedig â'r pandemig?

Dywedodd mwy na hanner (54%) y cyfranogwyr yng Nghymru eu bod yn defnyddio mwy o ynni ar adeg cwblhau'r arolwg nag yn y cyfnod cymharol y flwyddyn flaenorol, cyn y cyfnod clo cyntaf ledled y DU (cyfartaledd y DU o 55%). Y grwpiau a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu defnydd o ynni wedi cynyddu oedd y rhai mwyaf tebygol o ddweud bod rhywun o'u cartref wedi gweithio gartref (e.e. cyfranogwyr iau, cartrefi â phlant).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dywedodd dros bedair rhan o bump (84%) o gyfranogwyr Cymru fod eu haelwyd yn treulio mwy o amser gartref ar yr adeg y gwnaethant gwblhau'r arolwg o'i gymharu â chyn y cyfnod clo cyntaf ledled y DU. Dywedodd dwy ran o bump (44%) fod rhywun o'u cartref wedi gweithio gartref yn ystod y saith niwrnod diwethaf: yn debyg iawn i gyfartaledd y DU gyfan.

Ar gyfartaledd, dywedodd dwy ran o bump (36%) o gyfranogwyr Cymru eu bod yn ei chael yn anoddach ymdopi'n ariannol o'i gymharu â chyn y cyfnod clo cyntaf ledled y DU: ychydig yn is na chyfartaledd cyfan y DU o 40%. Mae grwpiau sy'n arbennig o debygol o ddweud eu bod yn dioddef pwysau ariannol yn debyg yng Nghymru a gweddill y DU ac yn cynnwys cartrefi â phlant, y rhai ar incwm is a'r rhai sy'n debygol o fod yn dlawd o ran tanwydd. Roedd y rhai 65+ yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dioddef pwysau ariannol na rhai dan 65 oed. Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr yng Nghymru fod ganddyn nhw broblemau yn ymwneud â gwres yn eu cartrefi (60%, ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 56%).

## Anhawsterau ariannol sy’n gysylltiedig â’r pandemig a byw mewn aelwyd sy’n dlawd o ran tanwydd

Pan ofynnwyd iddynt gymharu eu sefyllfa ariannol ar yr adeg y gwnaethant gwblhau'r arolwg (ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020) â chyn y cyfnod clo cyntaf ledled y DU, dywedodd ychydig dros draean (36%) o aelwydydd yng Nghymru eu bod yn ei chael hi'n anoddach ymdopi'n ariannol bryd hynny. Cododd hyn yn sylweddol i hanner (50%) yr aelwydydd sy'n debygol o fod yn dlawd o ran tanwydd a/neu ar incwm isel (o dan £16,000 y flwyddyn) (58%).

Dywedodd o leiaf dau o bob pump o'r rheiny mewn aelwydydd yng Nghymru sy'n debygol o fod yn dlawd o ran tanwydd na allent fforddio gwresogi eu haelwydydd i lefel gyfforddus (36% v 21% ar gyfartaledd), neu eu bod yn dogni'r defnydd o ynni oherwydd pryderon ariannol (43% v 26% ar gyfartaledd).

Er bod ymddygiadau sy'n lleihau'r defnydd o ynni yn cael eu hystyried yn fuddiol i sero net oherwydd eu bod yn gallu lleihau allyriadau carbon, nid oes unrhyw awgrym bod y rhain yn ganlyniadau polisi cadarnhaol mewn cyd-destunau lle

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mae newidiadau'n cael eu gwneud o reidrwydd i arbed arian: oherwydd efallai na fydd yr aelwydydd hyn yn gallu cynhesu eu cartrefi yn ddigonol neu ddefnyddio offer fel maent ei angen.

## Beth yw'r effeithiau posibl ar bolisi tymor byr, tymor canolig a thymor hwy?

Mae yna hefyd nifer o oblygiadau pwysig i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch gwneud neu gynnal newidiadau ymddygiad sero net cadarnhaol.

- Ar hyn o bryd mae arbed arian a gwella lles corfforol a meddyliol yn ysgogwyr pwysicach na phryder amgylcheddol.
- Mae pryder personol am newid yn yr hinsawdd wedi'i gysylltu'n gryfach â newid ymddygiad sero net cadarnhaol nag ystyriaeth fwy rhesymol neu gyfrifedig o'r materion, megis disgwyl effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd yn ystod oes yr unigolyn. Mae hyn yn dangos y dylai negeseuon am effeithiau fod yn bersonol yn hytrach nag yn generig i ysgogi gweithredu.
- Gall dealltwriaeth wael o effaith amgylcheddol newidiadau sero net cadarnhaol fod yn cyfyngu i ba raddau y mae pryderon amgylcheddol yn cael eu nodi fel sbardun i newid. Fel arall, gall hyn fod yn amharodrwydd syml ynghylch newid ffordd o fyw ymwthiol.

Hefyd, o ystyried ei bod yn llai tebygol y byddai ymddygiadau sydd â'r potensial uchaf am effaith net sero gadarnhaol yn cael eu cynnal (e.e. teithio llesol, lleihau teithio awyr), efallai y bydd angen mesurau i gefnogi'r newidiadau ymddygiad hyn.

# Manylion cyswllt

Awduron yr Adroddiad: Bridget Williams, Ruth Townend, Alice Walford, Charlie Peto, Kate Mesher

Ipsos Mori

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Aimee Marks
E-bost: **ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

Rhif ymchwil cymdeithasol: 76/2021
ISBN digidol: 978-1-80391-266-0

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolwg bywyd dyddiol, ymchwil aelwydydd COVID-19 Cymru: ton 1 adroddiad interim (crynodeb)** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-bywyd-dyddiol-ymchwil-aelwydydd-covid-19-cymru-ton-1-adroddiad-interim-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.